TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cat and Dog Basic First Aid

Yn gryno

P'un a ydych chi'n berchen ar gath neu gi neu eisiau gweithio gyda nhw, mae'r cwrs hwn yn cwmpasu'r holl agweddau ar gymorth cyntaf sylfaenol y mae angen i chi eu gwybod.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...perchnogion anifeiliaid anwes

...unrhyw un sy'n berchen ar lety cathod, llety cwn neu sefydliad sy'n ailgartrefu anifeiliaid

...pobl sy'n gwneud unrhyw fath o waith gyda chathod a chwn

Cynnwys y cwrs

Cwrs dwy awr yw hwn sy'n ymdrin â phob agwedd ar Gymorth Cyntaf sylfaenol ar gyfer cathod a chwn, gan gynnwys paratoi pecyn cymorth cyntaf priodol, gosod rhwymynnau, delio ag esgyrn wedi torri, gwenwyno, CPR brys a chywasgu'r frest ac amrywiaeth o wybodaeth

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Cymorth Cyntaf angenrheidiol arall.

Disgwylir i chi gymryd rhan mewn senarios ymarfer, ac ar ôl cwblhau'r cwrs byddwch yn cael tystysgrif Coleg Gwent.

Gofynion Mynediad

Nid oes yna unrhyw ofynion mynediad ffurfiol, dim ond diddordeb brwd mewn cathod a chwn.

Gwybodaeth Ychwanegol

Cost y cwrs hwn yw £30.

Mae'r cwrs yn cael ei ddysgu gan un o'n nyrsys milfeddygol cymwys.

Er mwyn ehangu eich gwybodaeth ymhellach, fe allech chi astudio ein cwrs arall ar gyfer perchnogion llety cathod a llety cwn - Clefydau, Diheintio a Gofal Safon Aur